CELEBRATING BLACK HISTORY MONTH OCTOBER 2025

# Cynllun Gweithredu Atal Hiliaeth Cymru: Pecyn Adnoddau

Un Llais Cymru / One Voice Wales

**Cefnogi Cynghorau Cymuned & Thref i Wreiddio Atal Hiliaeth yn Lleol**
**Cynhyrchwyd gan:** Dîm Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru
**Mewn Partneriaeth gyda:** Cyngor Tref Hwlffordd

## Rhagarweiniad:

Diolch ichi am gymryd rhan yng Ngweminarau Cynllun Gweithredu Atal Hiliaeth Cymru Un Llais Cymru, a gynhaliwyd yn rhan o Fis Hanes Pobl Dduon 2025.
Roedd y sesiynau hyn yn gyfle i:

- Glywed gan Randell Thomas-Turner am daith Cyngor Tref Hwlffordd.
- Deall Cynllun Gweithredu Atal Hiliaeth Cymru (ARWAP) Llywodraeth Cymru a'i berthnasedd i gynghorau.
- Edrych ar ffyrdd ymarferol y gall cynghorau gyfrannu at greu Cymru decach, fwy cynhwysol.

Mae'r pecyn hwn yn darparu offerynnau, enghreifftiau a gwybodaeth i'ch helpu i droi dysgu yn weithredu yn eich cyngor.

### Deall Cynllun Gweithredu Atal Hiliaeth Cymru

**Mae'r ARWAP (2022)** yn cyflwyno ymrwymiad Cymru i ddod yn genedl atal hiliaeth erbyn 2030.
Mae'r prif themâu sy'n berthnasol i gynghorau lleol yn cynnwys:

- Cynrychiolaeth ac Arweinyddiaeth: gwella amrywiaeth yn y broses o wneud penderfyniadau.
- Arfer yn y Sector Cyhoeddus: gofalu fod polisïau a gwasanaethau yn gynhwysol.
- Cydlyniant Cymunedol: mynd i'r afael â rhagfarn, adeiladu dealltwriaeth, a hyrwyddo cydraddoldeb.

**Ar gyfer Cynghorau Cymuned & Thref, mae hyn yn golygu:**

- Adlewyrchu amrywiaeth leol wrth ymgysylltu a chyfathrebu.
- Adolygu polisïau, recriwtio, a phartneriaethau trwy lens atal hiliaeth.
- Cefnogi prosiectau a llecynnau cymunedol cynhwysol.

Llywodraeth Cymru / Welsh Government

**Lawrlwythwch: Yr ARWAP llawn**

## Canllaw Cam Wrth Gam i Gynghorau:

**1 Cychwynnwch y Sgwrs**

- Ychwanegwch atal hiliaeth at agenda cyfarfod y cyngor i'r dyfodol.
- Rhannwch y pecyn hwn ac uchafbwyntiau'r gweminar gyda chynghorwyr a staff.
- Trafodwch pam mae'r gwaith hwn yn bwysig i'ch cymuned.

**2 Adolygwch Eich Arferion Presennol**

- Archwiliwch bolisïau a negeseuon i sicrhau bod yr iaith a'r delweddau yn gynhwysol.
- Meddyliwch am gynrychiolaeth: pwy sydd ar goll o'ch bwrdd?
- Meddyliwch am hygyrchedd cyfarfodydd, ymgynghoriadau a gwirfoddoli.

**3 Cysylltwch â'ch Cymuned**

- Adeiladwch berthnasoedd gydag unigolion a grwpiau o leiafrifoedd ethnig. Ewch i ddigwyddiadau diwylliannol yn y gymuned leol.
- Gwahoddwch siaradwyr gwadd o gefndiroedd amrywiol i weithgareddau cymunedol.

**4 Gosodwch Nodau Realistig**

Defnyddiwch eich nodiadau o'r grwpiau trafod i wneud 1-2 addewid ar gyfer y 6 mis nesaf.
Enghreifftiau:

- Datblygwch ddatganiad ar ymgysylltu cynhwysol.
- Trefnwch "Ddigwyddiad Gwrando" cymunedol.
- Trefnwch hyfforddiant atal hiliaeth ar gyfer cynghorwyr/staff.

**5 Adolygu ac Adrodd**

- ·Adolygwch eich cynnydd yn flynyddol.
- Rhannwch arfer dda gydag Un Llais Cymru ar gyfer eu cynnwys mewn pecynnau gwaith i'r dyfodol.

## Arfau Ymgysylltu:

### Pethau i'w Gwneud:

- Defnyddiwch iaith barchus, sy'n rhoi pobl yn gyntaf (e.e. "pobl o leiafrifoedd ethnig").
- Gofynnwch i gymunedau beth maen nhw ei angen a sut hoffen nhw ymgysylltu.
- Rhannwch wybodaeth trwy gyfryngau gwahanol (grwpiau ffydd, ysgolion lleol, canolfannau cymunedol).
- Rhowch sylw i hygyrchedd – iaith, amseru, gofal plant, mynediad i leoliadau.

### Peidiwch:

- Rhagdybio fod un person yn siarad dros bob cymuned.
- Tocyneiddio neu lethu unigolion o leiafrifoedd ethnig i gynrychioli'r holl faterion yn ymwneud ag amrywiaeth
- Defnyddio acronymau fel "BAME" gan ein bod yn rhoi'r gorau i'w defnyddio yng Nghymru.

### Cyngor Tref Hwlffordd

**Mae arweiniad y Cyng. Randell Thomas-Turner wedi ysbrydoli newid diwylliannol yn Hwlffordd**

**Y prif gamau a gymerwyd:**

- Mabwysiadu Siarter Atal Hiliaeth.
- Ymgysylltu rheolaidd gyda phobl o leiafrifoedd ethnig.
- Cydweithio gydag ysgolion ar ddigwyddiadau ymwybyddiaeth ddiwylliannol.
- Fforymau agored i leisiau'r gymuned.

**Gwersi a Ddysgwyd:**

- Rhaid i atal hiliaeth fod yn broses barhaus, nid yn rhywbeth untro.
- Mae arweinyddiaeth yn bwysig, mae ymrwymiad gweladwy yn meithrin ymddiriedaeth.
- Mae camau bychain yn creu momentwm.

### Addewid Gweithredu'r Cyngor:

I'w lenwi gan y Cyngor

**Enw'r Cyngor:**

**Cynghorydd/Swyddog Arweiniol:**

**Addewid Gweithredu'r Cyngor:**

**1.**

**2.**

**Y gefnogaeth rydyn ni ei hangen gan Un Llais Cymru neu bartneriaid:**

### Dolenni Defnyddiol & Darllen Ychwanegol:

Cynllun Gweithredu Atal Hiliaeth Cymru Llywodraeth Cymru

Un Llais Cymru: www.unllaiscymru.cymru

EYST Cymru: www.eyst.org.uk

Cyngor Hil Cymru: racecouncilcymru.org.uk

## Camau Nesaf:

- Mae cynghorau'n cael eu hannog i ddanfon eu Haddewidion Gweithredu at Un Llais Cymru.
- Bydd Un Llais Cymru yn darparu rhagor o gymorth

Bydd eich profiadau yn helpu llywio canllawiau cenedlaethol ar gyfer cynghorau cymuned a thref.

**Diolch am eich cefnogaeth.**


**Get in touch:**

CoLC@onevoicewales.wales https://bit.ly/3KYHftK Y Wefan Costau Byw